**AC-02-00(cof)**

# PWYLLGOR ARCHWILIO

## COFNODION

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 17 Chwefror 2000 | |
| **Amser:** | 9.30am | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1 | |
| **Presennol** | **Aelodau** | |
| | Janet Davies (Cadeirydd | Gorllewin De Cymru |
| | Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| | Christine Chapman | Cwm Cynon |
| | Geraint Davies | Rhondda |
| | Brian Gibbons | Aberafon |
| | Alison Halford | Delyn |
| | Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |
| | Dafydd Wigley | Caernarfon |
| | **Swyddogion** | |
| | Syr John Bourn | Archwiliwr Cyffredinol Cymru |
| | Ian Summers | Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| | Phil Gray | Swyddog Cydymffurfio’r Cynulliad Cenedlaethol |
| | Andrew George | Clerc |
| | Julie Bragg | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1 ar yr Agenda: Sesiwn Cymryd Tystiolaeth**
**Papur: AC-02-00(p.1)**

1.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn perthynas â Chyfrifon Amgueddfa Genedlaethol Cymru 1998-99 a gyhoeddwyd ar 19 Tachwedd 1999.

**Tystion**

| | |
|---|---|
| Anna Southall | Cyfarwyddwr, Amgueddfa Genedlaethol Cymru |
| Colin Ford | Cyn Gyfarwyddwr, Amgueddfa Genedlaethol Cymru |
| Jon Shortridge | Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Laurie Pavelin | Prif Gyfrifydd y Cynulliad Cenedlaethol |

1.2 Atodir trawsgrifiad air am air o'r eitem hon fel atodiad i'r cofnodion hyn.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
**Papur: AC-01-00(cof)**

2.1Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

2.2 Cynghorodd y Cadeirydd yr Aelodau y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 6 Ebrill. Y topigau i'w hystyried fyddai Adroddiad Cyffredinol Archwiliwr Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1998-99 a Chyfrifon Cryno Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 1998-99. Mae adroddiad yr NHS yn adroddiad gan y Rheolwr a'r Archwiliwr Cyffredinol i'r Llywodraeth. Fodd bynnag, disgwylir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r Pwyllgor Archwilio ei ystyried.

2.3 Roedd drafft terfynol adroddiad y Pwyllgor ar Cadw, gan ystyried sylwadau'r Aelodau o'r cyfarfod diwethaf, yn cael ei baratoi a byddai'n cael ei ddosbarthu i'r Aelodau'n fuan. Byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl ar ôl y gwyliau. Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn rhoi manylion o'r trefniadau cyhoeddi a'r datganiad i'r wasg i'r Aelodau ymlaen llaw.

2.4 Daeth y cyfarfod i ben am 12.20pm.